# Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Crynodeb statudol o adroddiadau lefelau staff nyrsio 2021-2024

## Tabl Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 2 |
| Cefndir deddfwriaethol | 3 |
| I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal | 5 |
| Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys | 17 |
| Camau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio | 28 |
| Atodiad 1 – Adroddiadau 3 blynedd llawn | 29 |



Mehefin 2025
LlC52307
ISBN digidol: 978-1-80633-047-8
This document is also available in English

## Crynodeb Gweithredol

- Diben y papur hwn yw crynhoi'r ail adroddiadau tair blynedd (sy'n cwmpasu Ebrill 2021 – Ebrill 2024) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan fyrddau iechyd ym mis Hydref 2024. Bydd hefyd yn cynnwys cyd-destun hanesyddol ac esboniad lle bo hynny'n briodol.
- Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiadau blynyddol y bwrdd iechyd sy'n gysylltiedig â'u hadroddiadau tair blynedd unigol llawn yn Atodiad 1.
- Mae adran 25E o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ("y Ddeddf") yn nodi, ar gyfer pob cyfnod adrodd tair blynedd, bod yn rhaid i fyrddau iechyd sydd â wardiau y mae adran 25B o'r Ddeddf yn berthnasol iddynt gyflwyno adroddiad sy'n amlinellu: i ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal; barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys; unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.
- Mae'r dull ar gyfer cyfrifo "lefel y staff nyrsio" wedi'i nodi yn adran 25D o'r Ddeddf, ac mae canllawiau statudol yn nodi'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth arfer barn broffesiynol i benderfynu ar hyn. Mae'n nodi y bydd y lefel staff nyrsio yn ddau beth yn ymarferol: y *lefel ofynnol o staff* (cyfanswm y nyrsys sydd ei angen ar ward er mwyn llunio rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer pob shifft); a'r *rhestr ddyletswyddau arfaethedig*.
- Mae'r broses adrodd yn parhau i esblygu gan nad oedd systemau byrddau iechyd wedi'u paratoi'n ddigonol pan ddaeth y Ddeddf i rym. Mae'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud ers yr adroddiad tair blynedd cyntaf yn cael ei adlewyrchu yn y crynodeb hwn.
- Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd wedi cynnal eu lefelau gofynnol o staff meddygol a llawfeddygol i oedolion trwy ariannu eu cyfrifiadau yn gyfan gwbl. Gwelwyd mân amrywiadau mewn dau sefydliad ynghyd ag esboniadau yn eu hadroddiadau tair blynedd. Gwelwyd amrywiad mwy sylweddol mewn un bwrdd iechyd, ond roedd yr amrywiad hwn wedi'i ddileu bron yn gyfan gwbl erbyn trydedd flwyddyn y cyfnod adrodd.
- Roedd pump o'r chwe bwrdd iechyd wedi cynnal eu lefelau gofynnol o staff pediatreg trwy ariannu eu cyfrifiadau yn gyfan gwbl. Gwelwyd mân amrywiad mewn un bwrdd iechyd, ond roedd yr amrywiad hwn wedi'i ddileu bron yn gyfan gwbl erbyn trydedd flwyddyn y cyfnod adrodd.
- Yn yr un modd â'r cyfnod tair blynedd cyntaf, nid yw'r gallu i gipio'r data sy'n ofynnol i gofnodi a gynhaliwyd *rhestr ddyletswyddau arfaethedig* fesul shifft wedi bod ar gael yn gyson i fyrddau iechyd trwy gydol yr ail gyfnod adrodd tair blynedd. Felly, nid yw byrddau iechyd wedi gallu darparu data cyflawn ynglŷn ag i ba raddau y mae rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal rhwng 2021-2024. Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno'r modiwl rheoli wardiau Safecare yn llwyddiannus ym mhob ward 25B, erbyn yr adroddiadau blynyddol nesaf bydd pob bwrdd iechyd mewn sefyllfa i adrodd ar sail canran i ba raddau y cynhaliwyd rhestrau dyletswyddau arfaethedig, a phriodoldeb neu amhriodoldeb yr amrywiad hwn (mwy o fanylion ar dudalen 6).
- Ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol i oedolion, cafwyd cyfanswm o 64 o ddigwyddiadau/cwynion difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol:
  - 33 achos o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (lefelau 3, 4 a diddosbarth)
  - 10 o gwympiadau (lefelau 4 a 5)
  - 0 digwyddiad meddygol na ddylai ddigwydd byth
  - 21 cwyn am ofal a ddarparwyd gan nyrsys

- Ar wardiau cleifion mewnol pediatrig, cafwyd cyfanswm o 4 o ddigwyddiadau/cwynion difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol:
    - 0 achos o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (lefelau 3, 4 a diddosbarth)
    - 0 o gwympiadau (lefelau 4 a 5)
    - 0 digwyddiad meddygol na ddylai ddigwydd byth
    - 1 anaf ymdreiddiad ac elifiad
    - 3 cwyn am ofal a ddarparwyd gan nyrsys

## **Cefndir Deddfwriaethol**

Cafodd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gydsyniad brenhinol ym mis Mawrth 2016, ac fe'i cyflwynwyd fesul cam mewn dwy ran.

Mae'r ddyletswydd gyntaf a fewnosodwyd i Adran 25A o'r Ddeddf yn nodi'r *'cyfrifoldeb cyffredinol'* ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau bod *digon o nyrsys i ofalu am gleifion mewn ffordd sensitif,* ac mae'n berthnasol i unrhyw leoliad lle mae gwasanaethau gofal nyrsio yn cael eu darparu a'u comisiynu. Daeth y ddyletswydd hon i rym yn 2017.

Mae'r ail ddyletswydd a fewnosodwyd i Adran 25B (a'i dyletswyddau cysylltiedig o dan adrannau 25C-E) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol Cymru ddefnyddio methodoleg drionglog ragnodedig i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2018 ar wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion a wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion.

Ym mis Chwefror 2021, pasiwyd rheoliadau yn y Senedd i ymestyn y ddyletswydd hon i wardiau cleifion mewnol pediatrig. Yr amserlen ddeddfwriaethol wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd hon mewn lleoliadau pediatrig oedd mis Ebrill 2021 ar yr un pryd â dechrau'r ail gyfnod adrodd tair blynedd. Fodd bynnag, bu'n rhaid gohirio'r ymgynghoriad cyhoeddus am chwe mis oherwydd pandemig Covid-19, ac felly daeth y ddyletswydd i rym ar wardiau cleifion mewnol pediatrig ar 1 Hydref 2021. Am y rheswm hwn, nid oes unrhyw ddata pediatrig wedi'i gynnwys yn y crynodeb hwn ar gyfer chwe mis cyntaf y cyfnod adrodd.

Mae adran 25E yn nodi bod dyletswydd adrodd o dan y Ddeddf ar unrhyw fwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y mae'r ddyletswydd 25B yn berthnasol iddynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu unrhyw fwrdd iechyd sydd â wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yn ystod y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r byrddau iechyd hyn gyflwyno adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd tair blynedd sy'n amlinellu:

1. I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal;
2. Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys (trwy gyfeirio at gynnydd mewn cwynion, gwallau o ran meddyginiaeth, cwympiadau cleifion ac wlserau pwyso a gafwyd mewn ysbytai);
3. Unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.

Mae adran 25E o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i fyrddau iechyd gyflwyno eu hadroddiadau tair blynedd i Lywodraeth Cymru o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod adrodd (5 Mai 2024). Fodd bynnag, yn aml mae ymchwiliadau i achosion difrifol o niwed yn para rhai misoedd, sy'n golygu y byddai ymchwiliadau i ddigwyddiadau o chwarter olaf blwyddyn tri ar waith o hyd, ac y byddai'r data a gyflwynwyd ym mis Mai 2024 yn anghyflawn.

Felly, penderfynwyd y byddai byrddau iechyd yn cyflwyno adroddiadau amodol ac anghyflawn ym mis Mai 2024 er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, ond y byddent wedyn yn cyflwyno eu hadroddiadau terfynol, cyflawn erbyn mis Hydref 2024, gan roi digon o amser iddynt gwblhau pob ymchwiliad i ddigwyddiadau difrifol.

Mae byrddau iechyd yn cwblhau adroddiadau sicrwydd bob blwyddyn yn fewnol, sy'n cael eu cyfuno wedyn i greu eu hadroddiadau statudol tair blynedd sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y papur canlynol yn crynhoi cynnwys adroddiadau tair blynedd y byrddau iechyd a gyflwynwyd yn Hydref 2024 o dan y tri phennawd a nodir uchod, gan gynnig cyd-destun hanesyddol ac esboniad lle y bo'n briodol. Holwyd y byrddau iechyd perthnasol am unrhyw achosion o ddata aneglur, anghyson neu afreolaidd iawn.

Mae unrhyw ddiwygiadau ôl-weithredol i adroddiad tair blynedd bwrdd iechyd wedi'u nodi'n glir yn y papur hwn.

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad cryno tair blynedd cyntaf (2018 - 2021), cydnabyddir, pan ddaeth y ddyletswydd adrodd o dan adran 25E o'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2018, nad oedd gan fyrddau iechyd y seilwaith TGCh safonedig angenrheidiol ar y pryd i gofnodi pob pwynt data, ac adrodd ar y pwyntiau hynny'n effeithiol, sydd ymhlyg o dan ofynion y Ddeddf. O reidrwydd, creodd hyn ddull pragmatig o wneud gwelliannau ailadroddol yn barhaus i'r broses o gofnodi data, ac adrodd ar y data hwnnw, wedi'i gydlynu gan is-grŵp adrodd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Wrth i systemau gael eu datblygu, eu caffael a'u cyflwyno, ac wrth i ddealltwriaeth o'r broses adrodd aeddfedu, mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r metrigau sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd arnynt. Gwnaed y diwygiadau hyn drwy strwythur llywodraethu Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan gyda'r nod o gyflawni adroddiadau data mor werthfawr a chyson â phosibl o dan Ddeddf 2016.

Canlyniad anochel diwygiadau o'r fath o dan y dull hwn o wella'n barhaus yw y gall rhai metrigau fod yn llai cymharol rhwng gwahanol gyfnodau adrodd. Er bod hyn yn cyflwyno cyfyngiadau yn y tymor byr, rydym yn derbyn bod hyn yn un o sgil-effeithiau angenrheidiol y broses o wella ansawdd a gwerth yr adroddiadau hyn fel budd mwy hirdymor.

Caiff unrhyw newidiadau o'r fath i fetrigau adrodd penodol eu hamlygu gydag esboniadau cysylltiedig yng nghorff y ddogfen hon.

## 1. I ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal

Cyd-destun

Mae'n bwysig nodi bod y canllawiau statudol yn diffinio "lefel y staff nyrsio" fel dau beth:

- y *lefel ofynnol o staff* (cyfanswm y nyrsys sydd ei angen ar ward er mwyn llunio rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer pob shifft); a'r
- *rhestr ddyletswyddau arfaethedig*.

Felly, yn ôl adran 25E 2(a) o'r Ddeddf, byddai angen i fyrddau iechyd adrodd ar y graddau y mae'r *naill a'r llall* wedi'u cynnal. O safbwynt y lefel ofynnol o staff, mae hwn yn ymarferiad cymharol syml, sef cymharu'r lefelau gofynnol a gyfrifwyd yn erbyn y lefelau a ariannwyd (a ddangosir yn Nhabl 1 isod).
Fodd bynnag, mae cynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig yn fetrig llawer mwy cymhleth i'w ddiffinio a'i fynegi at ddibenion adrodd.

Wrth benderfynu sut i fynegi *i ba raddau* y mae rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal, roedd yn amlwg y byddai cell ddeuaidd sy'n nodi bod ward *wedi* neu *ddim wedi* defnyddio'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig yn arwain at wybodaeth neu gyd-destun cyfyngedig iawn, ac na fyddai'n cofnodi'r farn broffesiynol liniarol a allai fod wedi cael ei defnyddio wrth asesu risg wardiau ar ddiwrnod penodol. (Mae paragraff 14 o Ganllawiau Statudol y Ddeddf yn cydnabod bod yr amgylchedd clinigol yn gymhleth ac felly mae'n bosibl y bydd angen amrywio'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar adegau er mwyn ymateb i ddibyniaeth a aciwtedd cleifion ar draws y system.)

Er enghraifft, gallai'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig ar gyfer ward - wedi'i chyfrifo bob 6 mis - fod ar gyfer 5 nyrs gofrestredig a 3 gweithiwr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, ar unrhyw ddiwrnod, gallai'r aciwtedd ar y ward hon fod yn anarferol o isel a bod nyrsys profiadol iawn yn rhan o'r rhestr ddyletswyddau. Ym marn broffesiynol rheolwr y ward, gallai 4 nyrs gofrestredig a 3 gweithiwr cymorth gofal iechyd fod yn rhestr briodol ar gyfer y diwrnod hwnnw, ac ym marn broffesiynol y person dynodedig wrth asesu risg pob un o'i wardiau, byddai'n well defnyddio'r nyrs gofrestredig ychwanegol ar ward sydd â lefel aciwtedd uwch. Yn yr achos hwn, ni fyddai cofnodi nad oedd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i bodloni yn cofnodi cymhlethdod y sefyllfa nac yn adlewyrchu cyfraniad hollbwysig barn broffesiynol uwch nyrsys at y broses.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y bydd achos yn codi lle mae'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig a gyfrifwyd ar gyfer yr un ward wedi'i bodloni, ond oherwydd lefel aciwtedd uchel iawn ar y diwrnod a'r defnydd o nyrsys cronfa dros dro nad ydynt wedi gweithio yn y maes hwn o'r blaen, gall rheolwr ward benderfynu *nad yw* 5 nyrs gofrestredig a 3 gweithiwr cymorth gofal iechyd yn ddigon i ddarparu gofal priodol i'r cleifion ar y shifft hon. Yn yr achos hwn, yn ôl y gyfraith, mae'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i bodloni. Fodd bynnag, byddai cofnodi bod y rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i bodloni yn mynd yn groes i ysbryd y gyfraith sy'n ymwneud â gofal diogel a phriodol.

Mae pedair sefyllfa gyffredinol wahanol yn helpu i gyfleu rhywfaint o'r gwahaniaeth rhwng rhestrau dyletswyddau arfaethedig a phriodoldeb rhestrau:

- Shifftiau lle **bodlonwyd** y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ac y penderfynwyd ei bod yn **briodol**.
- Shifftiau lle **bodlonwyd** y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ond y penderfynwyd ei bod yn **amhriodol**.
- Shifftiau lle **na fodlonwyd** y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ond y penderfynwyd ei bod yn **briodol**.
- Shifftiau lle **na fodlonwyd** y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ac y penderfynwyd ei bod yn **amhriodol**

Roedd yr adroddiad cryno tair blynedd cyntaf yn ymdrin yn fanwl â'r problemau hirdymor a wynebodd y byrddau iechyd wrth gasglu ac echdynnu'r data sydd ei angen i fodloni'r gofyniad adrodd hwn.

Hefyd, nododd y byddai'r ateb digidol hirdymor i'r broblem hon – sef y modiwl rheoli wardiau Safecare – yn cael ei gyflwyno ym mhob ward 25B yn ystod y cyfnod adrodd tair blynedd hwn (2021-24).

Cwblhawyd y broses o gyflwyno'r modiwl ar lefel genedlaethol (ar wardiau lle mae adran 25B o Ddeddf 2016 yn berthnasol) erbyn mis Mai 2023 er gwaethaf oedi oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r modiwl hwn wedi llwyddo i chwyldroi gwaith bob dydd uwch nyrsys sy'n rheoli wardiau wrth fonitro ac addasu eu staff nyrsio ar draws wardiau ar y safle.

Hefyd, am y tro cyntaf mae'r system yn galluogi byrddau iechyd i gasglu data ar eu rhestrau dyletswyddau arfaethedig o'i gymharu â'r rhestr wirioneddol a ddefnyddiwyd ar gyfer pob shifft.

Roedd byrddau iechyd gwahanol wedi cyflwyno'r system hon ar adegau gwahanol, ac nid oedd addasiadau i Safecare ar gyfer Cymru yn benodol wedi mynd yn fyw tan fis Awst 2023. Mae hyn yn golygu nad oes set gyflawn o ddata ar gael ar restr ddyletswyddau arfaethedig gan Safecare ar gyfer unrhyw un o'r tair blynedd yn y cyfnod adrodd hwn.

Erbyn yr adroddiadau tair blynedd nesaf, bydd yr holl fyrddau iechyd yn defnyddio'r fformat canlynol i fynegi *i ba raddau y mae rhestrau dyletswyddau arfaethedig wedi'u cynnal*:

| **Blwyddyn** | Cyfanswm # y shifftiau | Shifftiau lle bodlonwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig a’i bod yn briodol | Shifftiau lle bodlonwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ond ei bod yn amhriodol | Shifftiau lle na fodlonwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig ond ei bod yn briodol | Shifftiau lle na fodlonwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig a’i bod yn amhriodol | Cyfradd cwblhau data |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2023/24 | 14,870 | 50.3% | 8.5% | 27.0% | 14.2% | 83.8% |

*Enghraifft o adroddiad tair blynedd Caerdydd a'r Fro)*

Adrodd

Yn y cyd-destun hwn, mae'r tablau canlynol yn crynhoi ffigurau'r lefel ofynnol o staff ar gyfer nyrsys cofrestredig (RN) a gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW) ym mhob un o'r cyfnodau cyfrifo dwy flynedd ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion (Tabl 1) a wardiau cleifion mewnol pediatrig (Tabl 2). Trwy gymharu'r lefelau a gyfrifwyd â'r lefelau a ariannwyd, rydym yn dysgu i ba raddau y mae'r lefel staff nyrsio (y lefel ofynnol) wedi'i chynnal. Hefyd, mae'n dangos y lefelau staff yn union cyn cwblhau'r cyfrifiadau trionglog cyntaf, sy'n dangos yn glir sut mae'r gweithlu yn y wardiau hyn wedi newid dros y 6 blynedd gyntaf. Er hwylustod cyfeirio, mae unrhyw ffigurau gwarged wedi'u lliwio'n wyrdd, ac unrhyw ffigurau diffyg wedi'u lliwio'n goch.

*Noder: Penderfynwyd tua diwedd 2020 bod y ward ganser yng Nghanolfan Ganser Felindre yn bodloni'r diffiniad o ward feddygol neu lawfeddygol acíwt i oedolion ac felly y dylai dyletswyddau adran 25B o Ddeddf 2016 fod yn berthnasol i'r ward. Dechreuodd gwaith adrodd Felindre ar gyfer y ward hon ym mis Ebrill 2021 ar ddechrau'r cyfnod adrodd tair blynedd hwn.*

***Tabl 1 – I ba raddau y mae lefelau gofynnol o staff wedi'u cynnal ar wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion***

| Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 552.88 | 392.37 | Cyfrifwyd RN | Cyfrifwyd HCSW | Ariannwyd RN | Ariannwyd HCSW | Gwahaniaeth | |
| 32 ward | Mai-21 | 538.24 | 553.61 | 538.24 | 553.61 | 0 | 0 |
| 33 ward | Tach-21 | 594.1 | 641.6 | 594.1 | 641.6 | 0 | 0 |
| 33 ward | Mai-22 | 594.1 | 641.6 | 594.1 | 641.6 | 0 | 0 |
| 33 ward | Tach-22 | 582.31 | 695.33 | 582.31 | 695.33 | 0 | 0 |
| 34 ward | Mai-23 | 601.1 | 713.85 | 595.47 | 700.46 | -5.63 | -13.39 |
| 34 ward | Tach-23 | 599.68 | 720.22 | 594.05 | 706.24 | -5.63 | -13.98 |
| **Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | | | | | |
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 666 | 468.4 | **Cyfrifwyd RN** | **Cyfrifwyd HCSW** | **Ariannwyd RN** | **Ariannwyd HCSW** | **Gwahaniaeth** | |
| 37 ward | Mai-21 | 756.76 | 554.04 | 721.43 | 514.05 | -35.33 | -39.99 |
| 39 ward | Tach-21 | 811.8 | 670.92 | 736.5 | 520.44 | -75.3 | -150.48 |
| 39 ward | Mai-22 | 803.58 | 687.81 | 750.62 | 522.55 | -52.96 | -165.26 |
| 40 ward | Tach-22 | 790.83 | 706.13 | 768.81 | 527.2 | -22.02 | -178.93 |
| 42 ward | Mai-23 | 813.94 | 730.47 | 792.73 | 541.43 | -21.21 | -189.04 |
| | | | | | | | |
| 43 ward | Tach-23 | 839.4 | 759.51 | 836.98 | 741.3 | -2.42 | -18.21 |
| **Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | | | | |
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 1176 | 541 | **Cyfrifwyd RN** | **Cyfrifwyd HCSW** | **Ariannwyd RN** | **Ariannwyd HCSW** | **Gwahaniaeth** | |
| 42 ward | Mai-21 | 1014 | 671.12 | 1014 | 671.12 | | |
| 41 ward | Tach-21 | 981.66 | 649.13 | 981.66 | 649.13 | 0 | 0 |
| 42 ward | Mai-22 | 970.59 | 673.39 | 970.59 | 673.39 | 0 | 0 |
| 42 ward | Tach-22 | 927.94 | 666.86 | 927.94 | 666.86 | 0 | 0 |
| 40 ward | Mai-23 | 845.32 | 651.99 | 845.32 | 651.99 | 0 | 0 |
| 38 ward | Tach-23 | 832.09 | 642.44 | 832.09 | 642.44 | 0 | 0 |

***Tabl 1 parhad***

| Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Bro Morgannwg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 348.33 | 255.12 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| 31 ward | Mai-21 | 632.89 | 464.21 | 632.89 | 464.21 | 0 | 0 |
| 34 ward | Tach-21 | 684.01 | 531.8 | 684.01 | 531.8 | 0 | 0 |
| 32 ward | Mai-22 | 644.94 | 496.96 | 644.94 | 496.96 | 0 | 0 |
| 32 ward | Tach-22 | 672.97 | 514.9 | 672.97 | 514.9 | 0 | 0 |
| 33 ward | Mai-23 | 660.44 | 514.22 | 660.44 | 514.22 | 0 | 0 |
| 33 ward | Tach-23 | 654.76 | 508.53 | 654.76 | 508.53 | 0 | 0 |

| Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 604.01 | 436.76 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| 31 ward | Mai-21 | 571.12 | 546.03 | 600.63 | 523.61 | 29.51 | -22.42 |
| 32 ward | Tach-21 | 602 | 571 | 602 | 571 | 0 | 0 |
| 35 ward | Mai-22 | 608.56 | 607.66 | 597.03 | 585.74 | -11.53 | -21.92 |
| 33 ward | Tach-22 | 583.84 | 604.24 | 568.76 | 578.71 | -15.08 | -25.53 |
| 33 ward | Mai-23 | 581.15 | 617.59 | 576.85 | 603.6 | -4.3 | -13.99 |
| 30 ward | Tach-23 | 554.59 | 573.41 | 536.66 | 538.7 | -17.93 | -34.71 |

| Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 806.78 | 408.67 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| 28 ward | Mai-21 | 646.1 | 500.6 | 646.1 | 500.6 | 0 | 0 |
| 28 ward | Tach-21 | 648.77 | 531.46 | 648.77 | 531.46 | 0 | 0 |
| 28 ward | Mai-22 | 648.82 | 536.88 | 648.82 | 536.88 | 0 | 0 |
| 29 ward | Tach-22 | 658.86 | 551.26 | 658.86 | 551.26 | 0 | 0 |
| 32 ward | Mai-23 | 636.85 | 599.73 | 636.85 | 599.73 | 0 | 0 |
| 27 ward | Tach-23 | 551.71* | 491.69 | 551.71* | 491.69 | 0 | 0 |

**Diwygiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar ôl cyhoeddi'r adroddiad tair blynedd pan nodwyd bod rhai o'r ffigurau yn wallus.*

***Tabl 1 parhad***

| Lefelau staff cyn 1 Ebrill 2018 | | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 23.68 | 23.68 | **Cyfrifwyd** **RN** | **HCSW** | **Ariannwyd** **RN** | **HCSW** | **Gwahaniaeth** | |
| 1 ward | Mai-21 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 0 | 0 |
| 1 ward | Tach-21 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 0 | 0 |
| 1 ward | Mai-22 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 23.68 | 0 | 0 |
| 1 ward | Tach-22 | 28.42 | 14.21 | 28.42 | 14.21 | 0 | 0 |
| 1 ward | Mai-23 | 28.42 | 14.21 | 28.42 | 14.21 | 0 | 0 |
| 1 ward | Tach-23 | 28.42 | 14.21 | 28.42 | 14.21 | 0 | 0 |

Casgliad

Mae'r data uchod yn dangos y canlynol:

- Ar y cyfan, mae'r byrddau iechyd wedi cynnal eu lefelau gofynnol o staff meddygol a llawfeddygol i oedolion trwy ariannu eu cyfrifiadau'n briodol.

- Dywed Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre eu bod wedi ariannu'n union eu lefelau staff gofynnol a gyfrifwyd drwy gydol y cyfnod adrodd tair blynedd. Mae hyn yn arwydd o ddyletswydd a phroses sydd bellach yn cael eu deall a'u hymgorffori yn dda fel rhan o fusnes fel arfer i'r byrddau iechyd.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn adrodd amrywiad bach rhwng lefelau staff nyrsio wedi'u cyfrifo a'u hariannu ar gyfer trydedd flwyddyn y cyfnod hwn. Mae adroddiad tair blynedd y bwrdd iechyd yn esbonio bod newidiadau ariannol i'r cyfrifiadau ar 4 ward feddygol wedi'u gohirio dros dro tra bod gwasanaethau strôc yn y sefydliad yn cael eu had-drefnu.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn nodi bod amrywiad bach wedi bod rhwng lefelau wedi'u cyfrifo a lefelau wedi'u hariannu (o safbwynt gorariannu a thanariannu) trwy gydol y cyfnod tair blynedd, ond mae ei adroddiad tair blynedd yn esbonio'r rhesymau am hyn.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi amrywiad sylweddol sydd wedi amrywio yn ystod y cyfnod tair blynedd. Yn ôl cyfrifiad terfynol yr adroddiad, roedd y bwlch rhwng lefelau staff wedi'u cyfrifo a lefelau staff wedi'u hariannu wedi gostwng yn sylweddol i -2.42 RN a -18.21 HCSW.

Roedd adroddiad cryno y cyfnod tair blynedd cyntaf yn cymharu lefelau staff cyn ac ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym fel metrig syml o effaith bosibl y Ddeddf ar lefelau staff nyrsio. Nid oes unrhyw amheuaeth bod hwn yn fesur bras o ddau gyfnod digyfnewid nad yw'n ystyried natur ddynamig newidiadau ward a buddsoddiadau mewn staff yn ystod pob blwyddyn, newidiadau gweithredol i fodelau'r gweithlu, neu yn wir bwysau allanol acíwt fel y rhai a gafodd eu hachosi gan bandemig Covid-19. Serch hynny, mae'n ystadegyn diddorol i'w olrhain dros amser fel darlun cyffredinol o lefel a

chymysgedd sgiliau'r gweithlu nyrsio mewn lleoliadau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion, ac fe'i dangosir yn y tabl isod.

***Tabl 2 – Nifer y Nyrsys Cofrestredig (RNs) a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSWs) cyfwerth ag amser cyflawn (WTE) wedi'u hariannu ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion ledled GIG Cymru ar adeg cyfrifiadau mis Tachwedd.***

| Blwyddyn | Nifer y wardiau | RNs WTE wedi'u hariannu | HCSWs WTE wedi'u hariannu | Cyfanswm y gweithlu WTE | Cymysgedd sgiliau % | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | RN | HCSW |
| **Cyn y Ddeddf** | | 4154 | 2502.32 | 6656.32 | 62.41 | **Cyn y Ddeddf** |
| **2018** | 198 | 4396.24 | 2811.39 | 7207.63 | 60.99 | **2018** |
| **2019** | 197 | 4261.99 | 2996.4 | 7258.39 | 58.72 | **2019** |
| **2020** | 196 | 4293.74 | 3099.32 | 7393.06 | 58.08 | **2020** |
| **2021** | 208 | 4270.72 | 3469.11 | 7739.54 | 55.18 | **2021** |
| **2022** | 210 | 4208.07 | 3548.47 | 7756.54 | 54.25 | **2022** |
| **2023** | 206 | 4034.67 | 3643.11 | 7653.84 | 52.4 | **2023** |

Mae'r tabl hwn yn dangos y gall cyflwyniad y metrigau hyn fod yn gamarweiniol heb y wybodaeth gyd-destunol angenrheidiol.

Yn gyntaf, mae'r data crai yn dangos yn glir bod y cymysgedd sgiliau ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion wedi esblygu dros y chwe blynedd gyntaf ers i'r Ddeddf ddod i rym. Fodd bynnag, fel mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2023 yn ei nodi, byddai'n anghywir dehongli'r data fel naratif syml bod HCSWs yn disodli RNs. Rydym yn ymwybodol bod dulliau o ddirprwyo dyletswyddau nyrsio wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gallai hynny esbonio'r twf yn niferoedd HCSW. Yn gyntaf, mae uwch nyrsys ac arweinwyr timau wedi dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd cymysgedd sgiliau yng nghyd-destun yr agenda gofal iechyd darbodus a darparu gofal effeithiol mewn ffordd effeithlon.

Yn ogystal, roedd fframwaith sgiliau a gyrfa HCSW a gyhoeddwyd yn 2015 yn amlinellu disgrifyddion rôl a pharamedrau ymarfer mwy eglur sydd wedi cynyddu hyder mewn dirprwyo dyletswyddau i staff cymorth. Cafodd yr egwyddorion hyn eu profi yn ymarferol yn 2020/21 pan oedd angen dirprwyo dyletswyddau yn llawer mwy rheolaidd oherwydd dwyster yr argyfwng staffio pan oedd pandemig Covid 19 yn ei anterth. Mae un Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod hwn wedi dweud bod y profiad bywyd a'r canlyniadau yn ystod yr argyfwng hwn wedi newid canfyddiadau staff RN o ddirprwyo ac wedi cynyddu hyder yn eu gallu i wneud hynny'n effeithiol.

Ar yr olwg gyntaf, byddai'n ymddangos hefyd fod 173.40 yn llai o RNs wedi'u hariannu ym mis Tachwedd 2023 o'i gymharu â'r mis Tachwedd blaenorol. Fel ystadegyn moel, gallai hyn ymddangos yn ostyngiad sylweddol mewn lefelau staff ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion.

Fodd bynnag, mae data byrddau iechyd unigol yn dangos bod dau sefydliad yn gyfrifol am y gostyngiad hwn mewn niferoedd RN wedi'u hariannu. Mae astudiaeth fanylach yn dangos cyd-destun hanfodol sy'n esbonio'r niferoedd bras a ddangosir uchod.

Roedd niferoedd RN meddygol a llawfeddygol i oedolion wedi'u hariannu ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi gostwng 95.85 rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023. Fodd bynnag, rhaid nodi hefyd fod 4 yn llai o wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yn ystod yr un cyfnod yn dilyn ad-drefnu sylweddol o wardiau yn Ysbyty Athrofaol Cymru (fel y'i disgrifir yn adroddiad tair blynedd Caerdydd). Bydd rhwng 20-25 RN yn gweithio ar ward feddygol neu lawfeddygol arferol gan ddibynnu ar faint a chynllun y ward, felly mae gostyngiad o 95.85 RN cyfwerth ag amser cyflawn yn cyd-fynd yn ôl y disgwyl â gostyngiad o 4 ward.

Yn ogystal, nid yw nifer y wardiau ynddo ei hun o reidrwydd yn cyfleu faint o newid a fu mewn bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod hwn. Roedd niferoedd RN meddygol a llawfeddygol i oedolion yn Abertawe wedi gostwng 107.15 rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023. O gofio bod 2 ward yn llai yn unig ym mis Tachwedd 2023, ymddengys bod hynny'n ostyngiad anarferol o fawr o ystyried y cyfartaledd o 20-25 RN fesul ward a nodwyd uchod. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar yr adroddiadau blynyddol y cyfeirir atynt yn adroddiad tair blynedd Bae Abertawe, gwelir bod proses ad-drefnu wardiau arwyddocaol wedi digwydd o dan adran 25B o'r Ddeddf.

Fel y'i disgrifir yn ei adroddiad tair blynedd, aeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ati i ailgynllunio sut mae gofal llawfeddygol yn cael ei ddarparu yn y bwrdd iechyd. Nid oes syndod bod y broses hon wedi arwain at drefnu wardiau mewn ffordd wahanol. Er bod nifer y wardiau wedi newid o 29 i 27 rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023, roedd nifer y wardiau *gwahanol* yn arwyddocaol. O'r 29 ward feddygol a llawfeddygol a oedd yn ddarostyngedig i 25B o'r Ddeddf ym mis Tachwedd 2022, dim ond 19 a oedd wedi aros yn ddigyfnewid yn y cyfrifiadau ar gyfer mis Tachwedd 2023. Mae sawl ward newydd wedi'i sefydlu, ac mae rhai wardiau presennol wedi'u cau; wedi’u hadleoli i safleoedd gwahanol; wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol fel wardiau meddygol neu lawfeddygol; neu wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol fel ward y tu allan i'r cwmpas neu 25B.

Un o ganlyniadau'r ad-drefnu cynhwysfawr hwn o wasanaethau yw gostyngiad yng nghapasiti’r 27 ward sydd â 107 o welyau ym mis Tachwedd 2023, sy'n esbonio ymhellach pam mae angen llai o aelodau o staff nyrsio.

Rhywbeth arall sydd angen ei ystyried mewn perthynas â'r gostyngiad ymddangosiadol hwn mewn staff nyrsio ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion ym Mae Abertawe yw'r ffaith fod rheolwyr ward band 7 ychwanegol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyffredinol a gyflwynwyd yn adroddiadau'r bwrdd. Er mwyn cyd-fynd â byrddau iechyd eraill, cawsant eu tynnu wedyn o'r lefelau staff ar wardiau a gyflwynwyd i'r bwrdd o fis Mai 2023. Gan fod 32 o wardiau o dan adran 25B o'r Ddeddf ar yr adeg hon, mae'n creu argraff o ostyngiad o 32 RN cyfwerth ag amser cyflawn ar y wardiau. Mewn gwirionedd, mae'r RNs hyn yn parhau i weithio i'r bwrdd iechyd ac yn parhau i reoli'r wardiau hyn.

Mae hyn yn wir hefyd wrth ystyried y niferoedd amrywiol sydd i'w gweld yn y tabl uchod, er nad yw'n amlwg heb ddeall y cyd-destun cysylltiedig. Fel sy'n wir am yr

enghraifft uchod o ailgynllunio gwasanaethau yn sylweddol ym Mae Abertawe, nid yw gostyngiad mewn staff nyrsio ar wardiau sy'n dod o dan adran 25B o'r Ddeddf yn cynrychioli gostyngiad mewn staff nyrsio yn y bwrdd iechyd.

Yn wir, mae 25,347.4 o nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser cyflawn (data ESR ym mis Medi 2024) yn gweithio yn GIG Cymru, sef y cyfanswm mwyaf erioed.

At ddibenion adrodd yn y dyfodol, mae is-grŵp Adrodd AWNSG yn ystyried dulliau gwahanol o fynegi a chyfleu newid mewn wardiau ac unrhyw newid cyd-destunol arwyddocaol mewn capasiti gwelyau rhwng pob cyfrifiad yn hytrach na chynnwys nifer y wardiau yn unig.

***Tabl 3 – I ba raddau y mae lefelau gofynnol o staff wedi'u cynnal ar wardiau pediatrig i gleifion mewnol***

| **Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 74.91 | 18.06 | **Cyfrifwyd** | | **Ariannwyd** | | **Gwahaniaeth** | |
| | | **RN** | **HCSW** | **RN** | **HCSW** | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 1 ward | Tach-21 | 70.22 | 17 | 70.22 | 17 | 0 | 0 |
| 1 ward | Mai-22 | 70.22 | 17 | 70.22 | 17 | 0 | 0 |
| 1 ward | Tach-22 | 70.22 | 17 | 70.22 | 17 | 0 | 0 |
| 1 ward | Mai-23 | 70.22 | 17 | 70.22 | 17 | 0 | 0 |
| 1 ward | Tach-23 | 70.22 | 17 | 70.22 | 17 | 0 | 0 |

| **Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 83.46 | 31.27 | **Cyfrifwyd** | | **Ariannwyd** | | **Gwahaniaeth** | |
| | | **RN** | **HCSW** | **RN** | **HCSW** | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 3 ward | Tach-21 | 83.46 | 31.27 | 65.5 | 15.01 | -17.96 | -16.26 |
| 3 ward | Mai-22 | 83.46 | 31.27 | 79.45 | 31.27 | -4.01 | 0 |
| 3 ward | Tach-22 | 83.46 | 31.27 | 79.45 | 31.27 | -4.01 | 0 |
| 3 ward | Mai-23 | 83.46 | 31.27 | 79.45 | 31.27 | -4.01 | 0 |
| 3 ward | Tach-23 | 83.46 | 31.27 | 80.98 | 28.95 | -2.48 | -2.32 |

| **Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021** | | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RN** | **HCSW** | | | | | | |
| 101.85 | 23.02 | **Cyfrifwyd** | | **Ariannwyd** | | **Gwahaniaeth** | |
| | | **RN** | **HCSW** | **RN** | **HCSW** | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 2 ward | Tach-21 | 103.93 | 24.77 | 103.93 | 24.77 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-22 | 106.21 | 24.21 | 106.21 | 24.21 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-22 | 106.21 | 25.02 | 106.21 | 25.02 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-23 | 106.2 | 25.02 | 106.2 | 25.02 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-23 | 106.24 | 25.02 | 106.24 | 25.02 | 0 | 0 |

| Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 93.97 | 19.1 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 3 ward | Tach-21 | 93.97 | 19.1 | 93.97 | 19.1 | 0 | 0 |
| 3 ward | Mai-22 | 93.97 | 19.1 | 93.97 | 19.1 | 0 | 0 |
| 3 ward | Tach-22 | 93.97 | 19.1 | 93.97 | 19.1 | 0 | 0 |
| 3 ward | Mai-23 | 93.97 | 19.1 | 93.97 | 19.1 | 0 | 0 |
| 3 ward | Tach-23 | 93.2 | 20.31 | 93.2 | 20.31 | 0 | 0 |

| Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 48 | 16 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 2 ward | Tach-21 | 48 | 16 | 48 | 16 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-22 | 47.17 | 15.8 | 47.17 | 15.8 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-22 | 57.29 | 23.19 | 57.29 | 23.19 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-23 | 57.68 | 22.55 | 57.68 | 22.55 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-23 | 57.68 | 22.55 | 57.68 | 22.55 | 0 | 0 |

| Lefelau staff cyn 1 Hydref 2021 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RN | HCSW | | | | | | |
| 53.2 | 8.17 | Cyfrifwyd | | Ariannwyd | | Gwahaniaeth | |
| | | RN | HCSW | RN | HCSW | | |
| | Mai-21 | | | | | | |
| 2 ward | Tach-21 | 53.2 | 8.17 | 53.2 | 8.17 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-22 | 53.2 | 8.17 | 53.2 | 8.17 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-22 | 53.2 | 8.17 | 53.2 | 8.17 | 0 | 0 |
| 2 ward | Mai-23 | 53.2 | 8.17 | 53.2 | 8.17 | 0 | 0 |
| 2 ward | Tach-23 | 53.2 | 8.17 | 53.2 | 8.17 | 0 | 0 |

Casgliad

Mae'r data uchod yn dangos y canlynol:

- Mae pump o'r chwe bwrdd iechyd yn adrodd eu bod wedi ariannu yn union eu lefelau staff gofynnol a gyfrifwyd trwy gydol y cyfnod adrodd.

- Adroddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr amrywiad bach rhwng lefelau staff a gyfrifwyd a lefelau staff a ariannwyd. Fel sy'n wir am wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion, roedd y bwlch hwn wedi lleihau bron yn gyfan gwbl erbyn cyfrifiad terfynol y cyfnod adrodd i -2.48 RN a -2.32 HCSW.
- Mae cymharu lefelau staff a ariannwyd ym mis Tachwedd 2023 a chyn i'r Ddeddf ddod i rym ar wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn dangos cynnydd bach iawn o +6.13 RN a +8.7 HCSW. Y prif reswm nad oedd cynnydd mor fawr â'r cyfrifiadau cychwynnol yn 2018 ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yw'r ffaith fod byrddau iechyd eisoes wedi cynyddu eu lefelau staff pediatrig yn y 18 mis cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Hydref 2021 wrth gydymffurfio â'r egwyddorion staff nyrsio pediatrig dros dro.

## **2. Barn y bwrdd am effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion gan nyrsys**

Cyd-destun
Mae adran 25E 2(b) o Ddeddf 2016 yn dangos yn gyffredinol beth y dylai adroddiadau byrddau iechyd ei gynnwys o safbwynt digwyddiadau o niwed.

> *(b)*
> *the impact the Board or Trust considers that not maintaining nurse staffing levels has had on care provided to patients by nurses, for example by reference to complaints about care provided to patients by nurses made in accordance with the Complaints Regulations or by reference to an increase in incidents of harm caused by—*
>
> *(i) errors in administering medication to patients;*
> *(ii) patients falling;*
> *(iii) patients developing hospital-acquired pressure ulcers;*

Yn dilyn ymestyn adran 25B o'r Ddeddf i leoliadau Pediatrig ar gyfer cleifion mewnol ym mis Hydref 2021, cytunodd y byrddau iechyd i argymhelliad Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan bod angen cynnwys achosion o *anafiadau ymdreiddiad ac elifiad* fel dangosydd ansawdd mwy perthnasol yn y lleoliad hwn.

Cafwyd cytundeb unfrydol o'r cychwyn cyntaf na ddylai'r gofynion adrodd fod yn llafurus i'r graddau eu bod yn mynd yn groes i fwriad y gyfraith trwy effeithio'n ormodol ar amser staff nyrsio i ofalu am gleifion. Yn wir, codwyd pryderon am y posibilrwydd o'r canlyniad anfwriadol hwn yn ystod gwaith craffu ar y Bil yn gynnar yn y broses. Mae ymchwilio i achosion o niwed, a'u dilysu, yn broses sy'n cymryd llawer o amser staff nyrsio, ac roedd yr adroddiadau tair blynedd cyntaf yn cynnwys data ar niwed a oedd yn cyd-fynd â'r dehongliad mwyaf cyfyng posibl o 25E 2(b).

At ddibenion y data adrodd hwn, mae *digwyddiadau o niwed* yn cyfeirio at:
- niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (gradd 3, 4 a diddosbarth);
- cwympiadau sy'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth (digwyddiadau lefel 4 a 5);
- digwyddiadau gwallau meddyginiaeth na ddylent ddigwydd byth;
- cwynion am ofal nyrsio a reolir o dan reoliadau *Gweithio i Wella* GIG Cymru; ac
- anafiadau ymdreiddiad ac elifiad mewn lleoliadau pediatrig.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cryno tair blynedd cyntaf, cytunodd y Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio fod gwerth cyfyngedig i gynnwys y math lleiaf o ddata ar niwed yn unig, h.y. cyfanswm y digwyddiadau difrifol a nifer y digwyddiadau difrifol lle ystyriwyd bod methiant i gynnal y lefel staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol.

Sefydlwyd is-grŵp o Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i wella a mireinio'r broses adrodd; safoni prosesau adrodd yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac ehangu cwmpas adrodd ar achosion o niwed er mwyn darparu data mwy ystyrlon.

Yn ystod haf 2021, cytunodd fforwm y Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio ar argymhelliad i gynnwys colofn ychwanegol yn y templed adrodd er mwyn dangos *nifer y digwyddiadau/cwynion ar adegau pan na chynhaliwyd y lefel staff nyrsio (y rhestr ddyletswyddau arfaethedig).* Nod cynnwys y golofn hon oedd ychwanegu cyd-destun a chynyddu tryloywder yn ymwneud â'r broses o adrodd ar ddigwyddiadau. Mae'r data hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad tair blynedd hwn, ond nid oes modd ei gynnwys mewn unrhyw gymariaethau â'r cyfnod tair blynedd cyntaf. Hefyd, cytunodd fforwm y Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio y dylai'r is-grŵp adrodd barhau i fireinio a gwella prosesau adrodd wrth i alluoedd Safecare a Datix Cymru esblygu a chael eu gwreiddio mwy mewn ymarfer.

<u>Adrodd</u>

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r data perthnasol a nodwyd yn adroddiadau tair blynedd pob bwrdd iechyd. Mae'n dangos effaith peidio â chynnal y lefel staff nyrsio ar ofal i gleifion yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty lefelau 3, 4 a diddosbarth (PD), cwympiadau lefelau 4 a 5 (cwympiadau); digwyddiadau meddyginiaeth na ddylent ddigwydd byth (MNE); cwynion am ofal nyrsio sy'n arwain at niwed i gleifion; ac anafiadau ymdreiddiad ac elifiad (wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn unig).

***<u>Tabl 4 – Effaith peidio â chynnal lefelau staff nyrsio ar ddigwyddiadau difrifol o niwed i gleifion ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion</u>***

| | | # o ddigwyddiadau difrifol | | | | # o ddigwyddiadau difrifol pan na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig | | | | # o ddigwyddiadau difrifol lle ysty bod methu â chynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig yn ffa perthnasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **Cyfanswm** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **Cyfanswm** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **Cyfans** |
| **Aneurin Bevan** | P.D | 54 | 35 | 3 | 92 | 3 | 2 | 1 | 6 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| | Cwympiadau | 40 | 28 | 9 | 77 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 209 | 84 | 65 | 358 | 6 | 18 | 19 | 43 | 0 | 8 | 7 | 1 |
| **Betsi Cadwaladr** | P.D | 147 | 185 | 46 | 378 | 0 | 24 | 8 | 32 | 0 | 13 | 3 | 1 |
| | Cwympiadau | 41 | 40 | 12 | 93 | 1 | 2 | 1 | 4 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | MNE | 3 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 3 | 3 | 3 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Caerdydd a'r Fro** | P.D | 25 | 46 | 36 | 107 | 2 | 13 | 3 | 18 | 1 | 6 | 1 | 8 |
| | Cwympiadau | 9 | 14 | 6 | 29 | 0 | 5 | 1 | 6 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| | MNE | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cwm Taf Morgannwg** | P.D | 48 | 24 | 55 | 127 | 3 | 4 | 1 | 8 | 3 | 1 | 0 | 4 |
| | Cwympiadau | 2 | 4 | 2 | 8 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 40 | 36 | 6 | 82 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Hywel Dda** | P.D | 17 | 27 | 14 | 58 | 1 | 2 | 1 | 4 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | Cwympiadau | 12 | 13 | 0 | 25 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| | MNE | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 56 | 55 | 42 | 153 | 8* | 4 | 2 | 6 | 4 | 0 | 0 | 4 |
| **Bae Abertawe** | P.D | 10 | 2 | 4 | 16 | 1 | 2 | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| | Cwympiadau | 7 | 12 | 5 | 24 | 1 | 5 | 3 | 9 | 0 | 1 | 2 | 3 |


| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 10 | 5 | 7 | 22 | 1 | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Canolfan Ganser Felindre** | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | 1664 | | | | 159 | | | | 6 |

** Diwygiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dilyn cyhoeddi adroddiad tair blynedd ar ôl canfod gwall yn y niferoedd a oedd wedi'u cynnwys.*

***Tabl 5 – Trosolwg yn cymharu cyfanswm y digwyddiadau o niwed/cwynion ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yn ystod y ddau gyfnod adrodd tair blynedd hyd yn hyn***

| | Cyfnod tair blynedd cyntaf | | | | Ail gyfnod tair blynedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **Cyfansymiau** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **Cyfansymiau** |
| **PD** | 156 | 170 | 176 | 631 | 301 | 319 | 158 | 778 |
| **Cwympiadau** | 160 | 124 | 133 | 480 | 111 | 111 | 34 | 256 |
| **MNE** | 5 | 1 | 17 | 24 | 4 | 1 | 0 | 5 |
| **Cwynion** | X | 186 | 194 | 380 | 318 | 183 | 124 | 625 |
| **Cyfansymiau** | 321 | 481 | 520 | 1515 | 734 | 614 | 316 | 1664 |


***Siart 1 – Cyfanswm digwyddiadau o niwed/cwynion ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yn ystod y ddau gyfnod adrodd tair blynedd hyd yn hyn***




***Tabl 6 – Trosolwg yn cymharu digwyddiadau o niwed/cwynion lle ystyriwyd bod methu â chynnal y lefelau staff nyrsio yn ffactor perthnasol yn ystod y ddau gyfnod adrodd tair blynedd hyd yn hyn***

| | Cyfnod tair blynedd cyntaf | | | | Ail gyfnod tair blynedd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **Cyfansymiau** | **21/22** | **22/23** | **23/24** | **Cyfansymiau** |
| **PD** | 2 | 3 | 1 | 8 | 5 | 23 | 5 | 33 |
| **Cwympiadau** | 16 | 5 | 0 | 25 | 3 | 5 | 2 | 10 |
| **MNE** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cwynion** | X | 1 | 6 | 7 | 5 | 8 | 8 | 21 |
| **Cyfansymiau** | 18 | 9 | 7 | 40 | 13 | 36 | 15 | 64 |

***<u>Siart 2: Digwyddiadau o niwed/cwynion lle ystyriwyd bod methu â chynnal y lefelau staff nyrsio yn ffactor perthnasol yn ystod y ddau gyfnod adrodd tair blynedd hyd yn hyn</u>***




Casgliadau

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2024 cafwyd 1664 o achosion difrifol o niwed neu gwynion am ofal nyrsio ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yng Nghymru. Roedd 159 o'r achosion hyn wedi digwydd ar shifft lle na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig: 71 o achosion o friwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty; 28 o gwympiadau; a 52 o gwynion am ofal nyrsio.
Mewn 64 o'r achosion, ystyriwyd bod methu â chynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig yn ffactor perthnasol: 33 o achosion o friwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty; 10 o gwympiadau a 21 o gwynion am ofal nyrsio.
Fel y gwelir yn y data a gyflwynir yn y tablau a'r siartiau uchod, bu cynnydd yng nghyfanswm yr achosion o niwed/cwynion a adroddwyd o'i gymharu â'r cyfnod adrodd tair blynedd cyntaf - cynnydd o 149, o 1515 i 1664.

Fodd bynnag, mae yna ffactorau cyd-destunol pwysig sy'n gyfrifol am hyn:
- Ni chofnodwyd cwynion yn y flwyddyn gyntaf (2018/19), a’r cyfartaledd cymedrig ym mhob un o'r pum mlynedd adrodd arall yw 201 o gwynion.
- Pan oedd y pwysau ar y systemau oherwydd Covid yn eu hanterth, cafwyd lefelau uwch anghymesur (ond dealladwy) o gwynion ac achosion o friwiau pwyso, sydd bellach yn ymddangos fel pe baent wedi dychwelyd i'r lefelau cyn covid, neu lefelau is.

Yn yr un modd, wrth gymharu'r achosion o niwed/cwynion lle ystyriwyd bod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol, bu cynnydd o 24, o 40 yn y cyfnod adrodd tair blynedd cyntaf i 64 yn y cyfnod adrodd presennol.

Unwaith eto, mae diffyg data am gwynion a gofnodwyd o 2018/19 yn esbonio'r cynnydd yn rhannol, gan mai'r cyfartaledd cymedrig ym mhob un o'r pum mlynedd adrodd arall yw 5.6 o gwynion.

Yn ogystal, yn hytrach na chynnydd cyffredinol ym mhob categori ac ym mhob blwyddyn, roedd achosion o friwiau pwyso yn 2022/23 yn anarferol o uchel, sydd wedi gogwyddo'r cyfansymiau ar gyfer yr ail gyfnod adrodd tair blynedd – 23 o'i gymharu â chyfartaledd cymedrig o 3 ym mhob un o'r pum mlynedd adrodd arall. Hefyd, cafwyd 19 o'r digwyddiadau hyn mewn dau fwrdd iechyd yn unig (Caerdydd a'r Fro a Betsi Cadwaladr), ac mae'r rheswm am y cynnydd ymddangosiadol mewn digwyddiadau yn cael ei egluro yn eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2022/23.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod adrodd hwn, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dim ond cynnwys achosion *y gellir eu hosgoi* o friwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (gwahaniaeth sy'n cael ei benderfynu yn ystod y broses o ymchwilio i ddigwyddiad). Yn dilyn cyngor gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, cafodd digwyddiadau na ellir eu hosgoi eu cynnwys yn y ffigurau adrodd ar gyfer 2022/23, sy'n rhoi'r argraff bod nifer y digwyddiadau wedi cynyddu yn genedlaethol. Cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr achosion o friwiau pwyso na ellir eu hosgoi yn deillio o gyfnod mewn ysbyty ac achosion o friwiau pwyso y gellir eu hosgoi yn deillio o gyfnod mewn ysbyty yn 2022/23.

Roedd y gwaith hwn ar sail Cymru gyfan yn dangos anghysondeb â byrddau iechyd eraill a oedd yn adrodd am ddigwyddiadau y gellir eu hosgoi yn unig. Yn unol â'r metrigau adrodd y cytunwyd arnynt ac er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru o 2023/24 ymlaen, adroddodd pob bwrdd iechyd am achosion o friwiau pwyso y gellir eu hosgoi yn deillio o gyfnod mewn ysbyty yn unig.

Fel mae adroddiad cryno y cyfnod tair blynedd cyntaf yn ei ddisgrifio, rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y berthynas rhwng y data hwn ar niwed a lefelau staff nyrsio.

Yn anecdotaidd, byddai'n rhesymol rhagdybio bod y cynnydd mewn cyllid i gyflogi staff ers i'r Ddeddf ddod i rym – hyd yn oed mewn achosion lle y cafodd ei ddefnyddio i recriwtio staff dros dro – wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar ddiogelwch cleifion. Fodd bynnag, ni allwn wneud unrhyw honiadau meintiol sy'n cysylltu newidiadau i achosion penodol o niwed i gleifion yn uniongyrchol â dylanwad y Ddeddf.

Gwyddom fod byrddau iechyd wedi gwneud ymdrech fawr i leihau achosion o niwed o'r fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar 19 Hydref 2023, dywedodd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol eu bod wedi gweld gostyngiadau tebyg mewn achosion o niwed ledled lleoliadau byrddau iechyd, nid yn unig mewn wardiau 25B, sy'n dangos cyfres fwy cymhleth ac amlweddog o achosion na lefelau staff nyrsio yn unig.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad tair blynedd cyntaf, mae is-grŵp adrodd yr AWNSG yn gweithio'n barhaus tuag at fireinio a gwella'r broses adrodd wrth i'r systemau digidol sy'n sylfaen i gofnodi, dadansoddi a rhannu data perthnasol esblygu a symud ymlaen.

Ar ôl i'r Ddyletswydd Gonestrwydd ddod i rym ar 1 Ebrill 2023, daeth yn amlwg y byddai'r diffiniad o niwed a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth hon, a'r dull o gofnodi, dilysu ac adrodd am ddigwyddiadau difrifol o niwed, yn effeithio ar y metrigau adrodd mewn adroddiadau sicrwydd Lefelau Staff Nyrsio.

Hyd yn hyn, mae'r adroddiadau ar Lefelau Staff Nyrsio wedi cynnwys digwyddiadau o niwed gwirioneddol heb eu dilysu, yn hytrach na digwyddiadau y *canfuwyd eu bod yn deillio o weithred neu hepgoriad wrth dderbyn Gofal y GIG*, sef y diffiniad a ddefnyddir yn y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn y broses o adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion i Lywodraeth Cymru. Oherwydd y newidiadau a wnaed i strwythur y cwestiynau ar system DatixCymru, nid oedd gennym unrhyw ddewis ond cysoni'r digwyddiadau o niwed sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau ar Lefelau Staff Nyrsio â'r broses sydd wedi'i sefydlu ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau o ddiogelwch cleifion i Lywodraeth Cymru.

Felly, gan ddechrau o'r trydydd cyfnod adrodd tair blynedd (Ebrill 2024), bydd pob adroddiad yn y dyfodol yn cynnwys digwyddiadau diogelwch cleifion yr ymchwiliwyd iddynt sydd wedi'u dilysu â lefel o niwed i'w adrodd (yn unol â'r diffiniad o ddigwyddiad diogelwch cleifion). Hefyd, bydd yn nodi a oedd y lefel staff nyrsio yn ffactor perthnasol. O ganlyniad i'r newid hwn, bu'n rhaid gwneud newidiadau bach i'r categorïau o ddigwyddiadau difrifol a fydd yn cael eu hadrodd ar wardiau meddygol a llawfeddygol i gleifion mewnol sy'n oedolion. O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd y digwyddiadau o niwed sy'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau Lefelau Staff Nyrsio o dan y cyfanswm fel a ganlyn (tanlinellir y newidiadau):

- Niwed y gellir ei osgoi yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty (gradd 3, 4 a diddosbarth).
- Cwympiadau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (h.y. digwyddiadau **<u>lefel 3</u>**, 4 a 5).
- Gwallau meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau na ddylent ddigwydd byth (h.y. digwyddiadau **<u>lefel 3, 4, 5</u>** a digwyddiadau na ddylent ddigwydd byth).
- Unrhyw gwynion sy'n cael eu derbyn am ofal nyrsio (mae cwynion yn cyfeirio at gwynion sy'n cael eu rheoli o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella)

Yn ogystal, at ddibenion cyd-destun a gwerth ychwanegol, mae dwy golofn newydd o ddata wedi'u cynnwys yn y templedi adrodd o fis Ebrill 2024 ymlaen er mwyn cofnodi'r canlynol:

- Nifer y digwyddiadau/cwynion pan oedd y lefel staff nyrsio (y rhestr ddyletswyddau arfaethedig) wedi'i chynnal
- Nifer y digwyddiadau/cwynion lle ystyriwyd bod y lefel staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i chynnal.

Felly, bydd adroddiadau ar Lefelau Staff Nyrsio yn y dyfodol yn fwy cyson ag adroddiadau cenedlaethol presennol am ddigwyddiadau o niwed, a byddant yn cynnwys mwy o dryloywder ynglŷn â niwed a data ar restrau dyletswyddau arfaethedig. Fodd bynnag, bydd yn anodd cymharu data ar niwed o'r ddau adroddiad tair blynedd cyntaf yn uniongyrchol ag adroddiadau yn y dyfodol oherwydd y gwahaniaethau bach hyn.

*Tabl 7 – Effaith peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar ddigwyddiadau difrifol o niwed i gleifion ar wardiau pediatrig i gleifion mewnol*

| | | Nifer y digwyddiadau difrifol | | | | Nifer y digwyddiadau difrifol ar shifft lle na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig | | | | Nifer y digwyddiadau difrifol lle ystyriwyd bod methu â chynnal y lefelau staff nyrsio yn ffactor perthnasol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2021/22* | 2022/23 | 2023/24 | Cyfanswm | 2021/22* | 2022/23 | 2023/24 | Cyfanswm | 2021/22* | 2022/23 | 2023/24 | Cyfanswm |
| Aneurin Bevan | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 2 | 4 | 2 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Betsi Cadwaladr | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 2 | 0 | 3 | 5 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 11 | 6 | 0 | 17 | 6 | 1 | 0 | 7 | 3 | 0 | 0 | 3 |
| Caerdydd a’r Fro | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwm Taf Morgannwg** | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 5 | 7 | 7 | 19 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| | Cwynion | 1 | 1 | 5 | 7 | 1 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hywel Dda** | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 0 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Bae Abertawe** | P.D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwympiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | MNE | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Anafiadau ymdreiddiad ac elifiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cwynion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfansymiau | | | | **60** | | | | **11** | | | | **4** |

**Daeth y rheoliadau yn estyn adran 25B o Ddeddf 2016 i leoliadau pediatrig i gleifion mewnol i rym ar 1 Hydref 2021, felly data am chwe mis yn unig sydd wedi'i gynnwys yn y data ar gyfer 2021/22.*
***Diwygiwyd y rhes hon gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn dilyn cyhoeddi adroddiad tair blynedd ar ôl darganfod gwall yn y niferoedd a oedd wedi'u cynnwys.*

Casgliadau

Fel sy'n wir am yr adroddiadau tair blynedd cyntaf o wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion, realiti ystadegol y math hwn o adrodd yw nad yw data ar gyfer un cyfnod yn unig yn ddigon i sefydlu unrhyw gysylltiadau achosol rhwng cyflwyno Deddf 2016 ac unrhyw newidiadau i ddigwyddiadau o niwed. Bydd prosesau arsylwi ar batrymau a thueddiadau yn para am gyfnodau hirach na 3 blynedd.
Rhwng mis Hydref 2021 a mis Ebrill 2024 cafwyd 60 o ddigwyddiadau difrifol o niwed neu gwynion am ofal nyrsio ar wardiau pediatrig yng Nghymru: 34 o anafiadau ymdreiddiad ac elifiad a 26 o gwynion am ofal nyrsio.
Roedd 11 o'r achosion hyn wedi digwydd ar shifft lle na chynhaliwyd y rhestr ddyletswyddau arfaethedig: 1 anaf ymdreiddiad ac elifiad a 10 o gwynion am ofal nyrsio.
Roedd 3 o'r cwynion hyn yn ymwneud â gofal nyrsio ac un yn ymwneud ag anaf ymdreiddiad ac elifiad lle roedd methu â chynnal y rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i ystyried yn ffactor perthnasol.

Yn ogystal â'r materion a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y ddogfen hon yn ymwneud â gwerth adrodd data a dod i gasgliadau ystyrlon, mae'r lleoliad cleifion mewnol pediatrig hefyd yn dioddef o'r ffaith syml bod llawer llai o wardiau yn bodoli - 13 yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ar un llaw, mae strwythur wardiau pediatrig mewn byrddau iechyd yn fwy sefydlog ac yn llai tebygol o newid o'i gymharu â lleoliadau meddygol a llawfeddygol i oedolion, sy'n golygu y bydd y broses o gymharu data yn fwy dibynadwy dros amser. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod cyn lleied o wardiau yn bodoli yn arwain yn anochel at set ddata llawer mwy cyfyngedig nag mewn lleoliadau i oedolion.

Yn naturiol, mae hyn yn cyfyngu ar gwmpas ac ehangder y wybodaeth sydd ar gael gan fod setiau data bach yn arwain yn aml at lai o newidynnau a llai o gymhlethdod. Yn ogystal, gall setiau data bach arwain at ragfarn neu allanolion sy'n cael effaith sylweddol ar y canlyniadau. Wrth weithio ar sail arsylwadau cyfyngedig, gall hyd yn oed un allanol yn ystumio'r dadansoddiad ac arwain at gasgliadau camarweiniol.

Yn ogystal, er bod digwyddiadau o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty a chwympiadau wedi'u cynnwys er mwyn bodloni gofynion penodol adran 25E o Ddeddf 2016, nid ydynt yn ddigwyddiadau cyffredin o niwed mewn lleoliadau pediatrig. Yn wir, yn ystod y 30 mis o ddata a adroddwyd uchod, ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiad o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty neu gwymp mewn unrhyw ward pediatrig i gleifion mewnol yng Nghymru.

Roedd hyn yn rhagweladwy i raddau helaeth, a dyma'r rheswm pam mae byrddau iechyd wedi cynnwys anafiadau ymdreiddiad ac elifiad yn wirfoddol fel dangosydd ansawdd llawer mwy perthnasol mewn lleoliadau pediatrig. Yn dilyn yr ail gyfnod adrodd tair blynedd hwn, mae is-grŵp adrodd yr AWNSG yn archwilio dulliau eraill o gryfhau gwerth y data a adroddwyd mewn lleoliadau pediatrig at ddibenion prosesau adrodd yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried dangosyddion ansawdd eraill a allai fod yn berthnasol.

## 3. Camau gweithredu mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio

Cyd-destun

Nid oedd modd adrodd fesul shifft am gamau a gymerwyd pan nad yw rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i chynnal yn ystod y cyfnod adrodd tair blynedd hwn oherwydd y problemau data a digidol sydd eisoes wedi'u crybwyll yn yr adroddiad cryno hwn.

Fel sy'n wir am yr adroddiadau 3 blynedd cyntaf, mae byrddau iechyd wedi canolbwyntio'n bennaf ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r digwyddiadau o niwed lle ystyriwyd bod methu â chynnal y lefel staff nyrsio wedi bod yn ffactor perthnasol (y rhai a amlinellir yn yr adran uchod).

Ar gyfer adroddiadau sicrwydd yn y dyfodol, mae Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn archwilio sut y gellid defnyddio Safecare i gofnodi camau a gymerwyd ar bob shifft, a'u cyfleu yn fwy effeithiol, lle nad yw'r rhestr ddyletswyddau arfaethedig wedi'i chynnal.

Adrodd

Gan nad oes modd adrodd data meintiol eto yn ymwneud â'r agwedd hon, gallwn ddim ond asesu cofnodion ysgrifenedig byrddau iechyd o'r camau a gymerwyd ganddynt mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio. Mae'r manylion yn amrywio ychydig rhwng sefydliadau, ond maent yn dilyn themâu tebyg:

- Roedd pob sefydliad wedi rhoi sicrwydd ynglŷn â'r *camau rhesymol* (fel y'u nodir yn y canllawiau statudol) a gymerwyd i gynnal lefelau staff nyrsio - adleoli staff, recriwtio staff banc a staff asiantaeth dros dro, cynnwys prif nyrsys ward ychwanegol yn y rhestr lle nad oes modd osgoi gwneud hynny, newidiadau dros dro i lwybrau cleifion;
- Mae pob sefydliad yn cyfeirio at y dull cynhwysfawr o adolygu digwyddiadau o niwed. Mae hyn ar ffurf:
    - Dadansoddiad o achosion sylfaenol mewn paneli adolygu/sicrwydd penodol ar gyfer cwympiadau, niwed yn sgil briwiau pwyso a gwallau meddyginiaeth
    - Adolygiadau SWARM yn syth ar ôl digwyddiad
    - Adolygiadau dyddiol o ddigwyddiadau
    - Sgrymiau diogelwch dyddiol
    - Cyfarfodydd craffu ar niwed wythnosol
    - Cyfarfodydd cwynion ledled y sefydliad
    - Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cyfeirio'n benodol at grŵp cydweithredol yn ymwneud â niwed yn sgil briwiau pwyso a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021 a oedd wedi cyfrannu at ostyngiad o 27% erbyn mis Chwefror 2023 mewn digwyddiadau o niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o ofal iechyd.
- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn cyfeirio at rannu gwersi a ddysgir o achosion o gwympiadau a niwed yn sgil briwiau pwyso yn deillio o gyfnod mewn ysbyty;
- Rhagor o hyfforddiant yn ymwneud ag osgoi cwympiadau a niwed yn sgil briwiau pwyso;
- Cynnig cymorth llesiant i staff mewn meysydd sydd â phrinder staff yn barhaus;
- Sicrhau bod uwch nyrsys a thimau cyswllt cleifion yn fwy gweledol;
- Cynyddu gweithgarwch archwilio wardiau mewn meysydd sy'n peri pryder.

Mae unrhyw gwynion am ofal cleifion eisoes yn dod o dan *Gweithio i Wella,* ac mae pob bwrdd iechyd yn gyfarwydd iawn â'r prosiect hwn. Mae'r weithdrefn hon yn nodi'r camau y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon, ynghyd â'r amserlenni perthnasol.

I gael rhagor o fanylion am ffurflenni unigol y byrddau iechyd, ewch i'w hadroddiadau 3 blynedd llawn sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## Atodiad 1 – Adroddiadau tair blynedd llawn

| Bwrdd Iechyd | Papur |
| --- | --- |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Nurse Staffing Levels Three-year rep |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Nurse Staffing Levels Three-year rep |